

**CYNGOR CYMUNED LLANSANTFFRAED
LLANSANTFFRAED COMMUNITY COUNCIL**

**Cofnodion o gyfarfod o'r Cyngor a
gynhaliwyd am 7:30 pm ar nos
Fawrth, 7fed Ionawr 2020 yn yr
Ystafell Ddarllen, Llanon.**

**Minutes of a meeting of the Council
held at 7:30 pm on Tuesday, 7th
January 2020 at the Reading Room,
Llanon.**

Yn bresennol:

Cadeirydd: y Cynghorydd Lowri Jones; y
Cynghorwyr Sheila Davies, Jim Hughes,
Lodwick Lloyd, Dennis Morgan, Gwenno
Piette, Aled Roberts, Bryan Tomlins, Phil
Tomlins a Caryl Vaughan.

Y Cynghorydd Sir Dafydd Edwards
Mr Denfer Morgan (Clerc)

Present:

Chairman: Councillor Lowri Jones;
Councillors Sheila Davies, Jim Hughes,
Lodwick Lloyd, Dennis Morgan, Gwenno
Piette, Aled Roberts, Bryan Tomlins, Phil
Tomlins and Caryl Vaughan.

County Councillor Dafydd Edwards
Denfer Morgan (Clerk)

443 Heddlu Dyfed-Powys

Estynnodd y Cadeirydd groeso i'r
Heddwes Helen Yelland i'r cyfarfod i
gynorthwyo gyda'r drafodaeth o faterion
arbennig ar yr agenda.

Gofynwyd i'r Heddwes Yelland ddilyn i
fyny'r materion canlynol:

- Roedd plant yn dal i reidio scwteri
ar y palmentydd
- Gwelwyd personau yn mynd
mewn i adeilad a gauwyd i fyny
ar y stryd fawr
- Parcio ar y stryd yn Llanon.
Nododd ur Aelodau fod hwn yn
broblem o hyd, yn enwedig parcio
anystyriol ac anghyfreithiol posib
ar gyffyrdd. Dywedodd y
Cynghorydd Sir Dafydd Edwards
ei fod werdi achub y cyfle i godi'r
sefyllfa diweddaraf o ran y
cyfyngiadau parcio arfaethedig
gyda Mr Ken Skates, y
Gweinidog yr Economi a
Thrafnidiaeth, a oedd wedi addo
dilyn y mater i fyny.

**444 Datgelu Buddiant Personol ac Un
sy'n Rhagfarnu**

Datgelodd y Cynghorydd Bryan Tomlins
buddiant personol ac un sy'n rhagfarnu
yn y mater y cyfeirir ato yng nghofnod
457 ac, ar ol siarad ar ran

443 Dyfed-Powys Police

The Chairman extended a welcome to PC
Helen Yelland to the meeting to assist
with the discussion of certain matters on
the agenda.

PC Yelland was requested to follow up
the following matters:

- Children were still riding scooters
on the pavements
- Persons had been seen entering a
closed up empty property on the
main road
- On-street parking in Llanon.
Members stated that this was still a
problem, especially inconsiderate
and possibly unlawful parking on
junctions. County Councillor
Dafydd Edwards stated that he
had taken the opportunity of
raising the up-to-date position with
regard to the proposed parking
restrictions with Mr Ken Skates,
the Minister for Economy and
Transport, who had promised to
follow up the matter.

**444 Disclosure of Personal and Prejudicial
Interest**

Councillor Bryan Tomlins disclosed a
personal and prejudicial interest in the
matter referred to in Minute 457 and,
following speaking on behalf of the

Ymddiriedolwyr y Clwb Peldroed, ni chymerodd rhan pellach yn y drafodaeth arno fe.

Trustees of the Football Club, took no further part in the discussion thereon.

445 Cofnodion o'r Cyfarfod Misol a gynhaliwyd ar 3ydd Rhagfyr 2019
Cadarnhawyd cofnodion o Gyfarfod o'r Cyngor a gynhaliwyd ar 3ydd Rhagfyr 2019 fel rhai cywir, yn amodol ar gywiro'r cyfeiriad cyfeiriad at 'Jordan Lodge' yng nghofnod 442d) i 'Jonden Lodge'.

445 Minutes of the Monthly Meeting held on 3rd December 2019
The Minutes the Meeting of the Council held on 3rd December 2019 were confirmed as being a correct record, subject to amending the reference in Minute 442d) from 'Jordan Lodge' to 'Jonden Lodge'.

446 Materion yn codi o'r Cofnodion

446 Matters arising from the Minutes

- (a) Cofnod 431(a) – Goleuadau Stryd yn Nebo: dywedodd y Cynghorydd Sir Dafydd Edwards taw'r pris a dderbyniwyd gan y Cyngor Sir ar gyfer darparu goleuadau solar yn y lleoliad yma oedd £4,000.
- (b) Cofnod 431(b) – Pafin yng Nghylch Peris: dywedodd y Cynghorydd Dafydd Edwards bod y pafin yn disgwyl cael ei drwsio.
- (c) Cofnod 431(c) – weiren bigog ar lwybr troed Neuadd yr Eglwys: roedd manylion perchnogaeth y tir gerllaw yn cael ei gasglu.
- (d)

- (a) Minute 431(a) Street Lights at Nebo – County Councillor Dafydd Edwards stated that the price received from the County Council for the provision of solar powered lights at this location was £4,000.
- (b) Minute 431(b) – Pavement at Cylch Peris - Councillor Dafydd Edwards stated that the pavement was awaiting repairs.
- (c) Minute 431(c) – barbed wire at Church Hall footpath: details of the ownership of adjoining land was being obtained.
- (d)

447 Archwiliad o Eiddo

Roedd y Cyngor Sir yn bwrw mlaen i drwsio'r cyfarpar chwarae. Mynegwyd pryder fod cŵn yn dal i gael eu cymryd gan eu perchnogion i'r maes chwarae a bod bagiau baw cŵn yn cael eu taflu dros ffensys a chloddiau i dir amaethyddol. Dywedodd y Cynghorydd Phil Tomlins ei fod yn edrych mewn i'r posibilrwydd o brynu blychau ar gyfer darparu bagiau i'w gosod wrth ymyl llwybrau.

447 Property Inspection

The County Council were proceeding with the repairs to the playground equipment. Concern was expressed that dogs were still being taken by their owners onto the playing field and that dog poo bags were being thrown over fences and hedges onto agricultural land. Councillor Phil Tomlins stated that he was looking into the possibility of buying poo bag dispensers for placing on the side of footpaths.

448 Y Chalet

Dywedodd y Cynghorydd Aled Roberts ei fod wedi cael gwybod gan gynhyrchwyr rhaglen deledu S4C 'Prosiect Pum Mil' fod y cynllun wedi'i roi ar y restr fer ac y byddai penderfyniad yn dilyn yn fuan.

448 The Chalet

Councillor Aled Roberts stated that he had been advised by the producers of the S4C programme 'Prosiect Pum Mil' that the scheme had been placed on the shortlist and that a decision would be made shortly.

PENDERFYNWYD nodi'r sefyllfa

It was **RESOLVED** to note the current

presennol ac i drafod y mater ymhellach yn y cyfarfod nesaf..

position and consider the matter further at the next meeting.

449 Man Eistedd

Dywedodd y Clerc ei fod wedi cysylltu gyda thri tenant y fflatiau yng Ngwesty'r Central gynt gan ofyn iddynt beidio a rhoi sachau sbwriel ac ailgylchu ym man eistedd y Cyngor ac i gysylltu gyda'u landlord am gyngor ar sut i ddelio gyda gwastraff. Gofynwyd i'r Clerc gysylltu gyda'r landlord i roi gwybod iddo fe am y camau a gymerwyd ganddo ac i gymryd camau ar fyrder i glirio'r sribyn o dir y tu ôl i'r man eistedd o bob defnyddiau a adawyd ganddo ynddo fe.

449 Seating Area

The Clerk stated that he had contacted the three tenants of the flats at the former Central Hotel requesting them not to place refuse and recycling sacks at the Council's seating area and to contact their landlord for advice as to how to deal with their waste. The Clerk was requested to contact the landlord to advise him of this action and to take immediate steps to clear the strip of land to the rear of the seating area of all the materials deposited by him there.

450 Cymwynaswr y Gymuned

Dywedodd y Cadeirydd fod y seremoni gwobrwyo ar noson goleuo'r goeden Nadolig wedi profi'n lwyddiant a bod sawl un wedi canmol y fenter.

450 Community Champion

The Chairman stated that the award ceremony at the lighting the Christmas tree event had been a success and several compliments had been received for the initiative.

451 Plannu Blodau Gwylltion

PENDERFYNWYD gdilyn i fyny'r posibilrwydd o blannu blodau gwyllt ar y llain tir glas o flaen yr Ysgol Gynradd; neu yng Nghylch Peris.

[Dywedodd y Cyngorydd Lodwick Lloyd y dymuna iddo gael ei gofnodi ei fod wedi pleidleisio yn erbyn y prosiect newydd hwn.]

451 Planting of Wildflowers in the Community

It was **RESOLVED** to follow up the possibility of planting wildflowers on the green in front of the Primary School owned by the Council; or at Cylch Peris.

[Councillor Lodwick Lloyd wished it to be recorded that he had voted against this new project.]

452 Meinciau yn y Gymuned

Dywedodd y Clerc ei fod wedi gofyn i'r contractwr orffen y gwaith erbyn Pasg 2020.

452 Benches in the Community

The Clerk stated that he had requested the contractor to finish the work by Easter 2020.

453 Contract Torri Tyfiant Llwybrau Cyhoeddus 2020

PENDERFYNWYD gwahodd y contractwr newydd gwrdd gydag archwilwyr y llwybrau troed cyn dechrau gyda'r toriad cyntaf. Fe atgoffwyd y Cyngor o'r angen i dorri nol ochrau'r llwybrau tarmac er mwyn diogelu lled un metr o leiaf.

Cyfeiriwyd hefyd at y difrod a wneir i'r llwybr sy'n arwain o Stryd y Capel i'r man chwarae gan gerbyd oddi ar y

453 Public Footpath Growth Cutting Contract 2020

It was **RESOLVED** to invite the new contractor to meet with the footpath inspectors prior to commencing the first cut. The Council was reminded of the need to trim the edges of the tarmac footpaths to safeguard a minimum width of one metre.

Reference was also made to the damage being caused to the footpath leading from Stryd y Capel to the playground by an off-

ffordd a oedd yn cael ei yrru gan berson lleol; a gofynwyd i'r Clerc ddilyn hwn i fyny.

454 Materion Ariannol

PENDERFYNWYD talu'r anfonebau canlynol:

Pwyllgor Cymdeithasol a Lles Llanon (y defnydd o'r ystafell ddarllen 2019) £170
Capel Siloh (y defnydd o'r festri ar gyfer y Digwyddiad Nadolig) £20
Eisteddfod Genedlaethol Ceredigion 2020 (2il rhan-daliad) £1,000

455 Cyllideb y Cyngor 2020-21

Rhoddwyd ystyriaeth i'r Gyllideb Drafft ar gyfer 2020-21 a baratawyd gan y Clerc. Nododd yr Aelodau na fyddai'r gwaith o adnewyddu'r meinciau a chodi chalet newydd yn mynd yn eu blaen tan y flwyddyn ariannol nesaf ac y dylid darparu ar gyfer y ddau gynllun yma. Rhoddwyd ystyriaeth hefyd gan yr Aelodau i'r pris a grybwyllwyd yn gynharach gan y Cyngorydd Sir Dafydd Edwards am ddarparu goleuadau stryd rhwng yr tai Morawel a Phengarreg yn Nebo a chytunwyd darparu £4,000 yn y gyllideb at y pwrpas hwn.

PENDERFYNWYD felly fel a ganlyn:

- i) cymeradwo Cyllideb yn y swm o £23,705;
- ii) gosod Praesept o £15,000 a Treth Gyngor ar gyfer Eiddo Band D yn y swm o £27.65;
- iii) o ran y grant a gytunwyd eisoes gan y Cyngor Sir yn y swm o £2,992 tuag at gost y chalet newydd, i ofyn i'r Cyngor Sir i'w gario mlaen i'r flwyddyn ariannol nesaf; a
- iv) defnyddio £5,713 o'r arian wrth gefn.

456 Gwefan y Cyngor

Rhoddwyd ystyriaeth i ebost a dderbyniwyd oddi wrth ddarparwyd presennol gwefan y Cyngor ynghylch yr angen i'w ddiweddarau i gwrdd â'r gofynion newydd ar gyfer gwefannau y

road vehicle being ridden by a local person; and the Clerk was requested to follow this up.

454 Finance Matters

It was **RESOLVED** to pay the following invoices:

Llanon Social and Welfare Committee (Use of reading Room 2019) £170
Capel Siloh (use of vestry for Christmas Event) £20
Ceredigion National Eisteddfod 2020 (2nd instalment) £1,000

455 Council's Budget 2020-21

Consideration was given to the Draft Budget for 2020-21 as prepared by the Clerk.

Members noted the renovation of the benches and the replacement chalet would not proceed until the following financial year and that provision should be made for these two schemes.

Members also discussed the price provided earlier by County Councillor Dafydd Edwards for the provision of street lights between the dwellings Morawel and Pengarreg at Nebo and it was agreed to provide a sum of £4,000 in the budget for this purpose.

It was therefore **RESOLVED** as follows:

- i) to approve a budget of £23,705;
- ii) to set a Precept of 15,000, with a Council Tax of £27.65 on Band D properties;
- iii) with regard to the grant already approved by the County Council in the sum of £2,992 towards the cost of a new chalet, to request the County Council to carry it forward to the next financial year; and
- iv) to utilise £5,713 of reserves.

456 Council's Website

Consideration was given to an email received from the current provider of the Council's website with regard to the need to meet the new requirements for public sector websites.

sector cyhoeddus.

457 Cais Ymddiriedolwyr Clwb Peldroed Llanon mewn cysylltiad â'r Ystafelloedd Newid

Dywedodd Bryan Tomlins, yn rhinwedd ei swydd fel un o Ymddiriedolwyr y Clwb Peldroed, ei fod wedi trafod y mater gyda Nigel Davies, y cyfreithiwr a luniodd Prydles 2003 rhwng Pwyllgor Neuadd y Pentref a'r Meysydd Chwarae a'r Clwb Peldroed, a'i fod wedi cytuno gyda dehongliad y Clerc o ddarpariaethau'r Brydles. Prun bynnag roedd Mr Davies wedi cynghori Mr Tomlins i ofyn, cyn bod y Clwb yn mynd at y Pwyllgor yn ffurfiol, i ildio'r Brydles, a fyddai'r Cyngor yn cytuno i ddatgan ar hyn o bryd ei fod yn barod, mewn egwyddor i gymryd drosto'r ystafelloedd newid.

(Stopiodd y Cynghorydd Tomlins gymeryd rhan yn y drafodaeth a ddilynodd ar y mater.)

Mewn atebiad, dywedodd y Clerc y gallai ond ail-ddatgan y cyngor a roddwyd ganddo yn y cyfarfod blaenorol, fel a gofnodwyd yng nghofnod 441, a gafodd ei gadarnhau fel cofnod cywir ar ddechrau'r cyfarfod hwn, sef y dylai'r Cyngor aros am ganlyniad cais ffurfiol y Clwb i'r Pwyllgor i ildio'r Brydles ac unrhyw gais alla'i ddilyn gan y Pwyllgor i'r Cyngor gymryd drosto'r ystafelloedd newid.

PENDERFYNWYD derbyn cyngor y Clerc ac aros am unrhyw gais ffurfiol alla'i ddilyn yn y dyfodol gan Bwyllgor Neuadd y Pentref a Meysydd Chwarae Llanon.

458 Darparu Rhandiroedd

Cyfeiriodd y Cynghorydd Sheila Davies at ymholiad a gafodd gan drigolyn ynghylch y posibilrwydd o ddarparu rhandir yn y gymuned. Nodwyd nad oedd y Cyngor yn berchen ar dir a allai gael ei ddefnyddio at y pwrpas hwn.

457 Request of Llanon Football Club Trustees in respect of the Changing Rooms

Bryan Tomlins, in his capacity as one of the Trustees of the Football Club, stated that he had discussed the matter with Nigel Davies, the solicitor who had drawn up the 2003 Lease between the Village Hall and Playing Field Committee and the Football Club, and who had agreed with the Clerk's interpretation of the provisions of the Lease. However, it was stated that Mr Davies had advised Mr Tomlins to request that, prior to the Club formally approaching the Committee on surrendering the Lease, that the Council be requested whether it would state at this juncture that it would agree in principle to take over the changing rooms.

(Councillor Tomlins then stopped taking part in the subsequent discussion on the matter.)

In response, the Clerk stated that he could only reiterate the advice he had given in the previous meeting, as recorded in Minute 441, which had been approved as a correct record at the commencement of this meeting, in that the Council should await the outcome of the Club's formal request to the Committee for surrendering the Lease and any subsequent request that could be made by the Committee to the Council to take over the changing rooms.

It was **RESOLVED** to accept the advice of the Clerk and to await any formal request that may be forthcoming from the Llanon Village Hall and Playing Fields Committee in future.

458 Provision of Allotments

Councillor Sheila Davies referred to the enquiry she had received from a resident about the possibility of providing an allotment within the community. It was noted that the Council did not own any land which could be used for this

PENDERFYNWYD gofyn i Aelodau feddwl am ddarnau posib o dir at y pwrpas hwn ar gyfer eu trafod mewn cyfarfod yn y dyfodol.

459 Unrhyw Fater Cymwys Arall

- a) Dywedodd y Cynghorydd Aled Roberts ei fod am longyfarch y Cadeirydd am lwyddiant y fenter Cymwynaswr y Gymuned; cafodd wybod nad tudalen swyddogol y Cyngor oedd tudalen Facebook Cymuned Llansantffraed; a'i fod wedi derbyn sylwadau am fod drama Nadolig yr Ysgol Gynradd yn uniaith Saesneg. Esboniodd y Cynghorydd Gwenno Piette, cynrychiolydd y Cyngor ar y Bwrdd Llywodraethol, fod y ddrama yn cael ei anelu at y gymuned gyfan a bod y sgript wreiddiol yn Saesneg.
- b) Dywedodd y Cynghorydd Dennis Morgan ei fod wedi derbyn cwyn fod y peiriant darparu tywelion papur yn nhoiledau'r Waun wedi'u eu cymryd i ffwrdd a chytunodd y Clerc i ddilyn hwn i fyny.
- c) Cynigiodd y Cynghorydd Lodwick Lloyd y dylid gwahodd siaradwr gwadd i Ginio Nadolig y Cyngor ond cytunwyd ei fod yn rhy hwyr i ystyried cynnig o'r fath eleni.

Daeth y cyfarfod i ben am 9:15pm

purpose.

It was **RESOLVED** that Members be requested to think of possible parcels of land for this purpose for consideration at a future meeting.

459 Any Other Competent Business

- a) Councillor Aled Roberts stated that he wished to congratulate the Chairman on the success of the Community Champion initiative; received advice that the Llansantffraed Community Facebook page was not an official Council page; and that he had received comments about the Primary School Christmas play being in English. Council Gwenno Piette, the Council's representative on the Board of Governors explained that the play was aimed at the whole community and had an original English script.
- b) Councillor Dennis Morgan stated that he had received a complaint that the paper towel dispensers had been removed from the Waun toilets and the Clerk agreed to follow this up.
- c) Councillor Lodwick Lloyd suggested that a guest speaker be invited in the Council's Christmas Dinner but it was agreed that it was late in the day to consider such a suggestion for this year.

The meeting concluded at 9:15pm